PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD LLUN, 17 HYDREF 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Molik(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ash-Edwards, Boes, Lewis a/ac McGarry |

10 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Lent a'r Prif Swyddog Craffu Naomi Tomic.

11 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Molik fuddiant personol yn Eitem 5 a diddordeb rhagfarnol yn Eitem 6. Datganodd y Cynghorydd McGarry fuddiant personol yn Eitem 6.

Cynigiodd y Cynghorydd Molik fod y Cynghorydd McGarry yn cadeirio Eitem 6 a chafodd y cynnig ei gymeradwyo.

12 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2022 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

13 : YMRWYMIADAU I OFALWYR DI-DÂL

Cynghorwyd aelodau bod yr eitem hon yn gyfle i ystyried Siarter Gofalwyr Di-dâl Bwrdd Partneriaeth Caerdydd a'r Fro a gwaith y Cyngor i wella cefnogaeth i ofalwyr di-dâl yng Nghaerdydd.

I gynorthwyo'r ystyriaeth, croesawodd y Cadeirydd:

- y Cynghorydd Norma Mackie, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion
- Jane Thomas, Cyfarwyddwr Oedolion, Tai a Chymunedau
- Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gofal Cymdeithasol; a
- Cath Doman, Cyfarwyddwr Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol, lle amlinellodd y gwaith a wnaed gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sy'n cynnwys cynghorau Caerdydd a'r Fro a'r Bwrdd Iechyd, ynghyd â gofalwyr i ddatblygu dwy siarter newydd, gan nodi eu hymrwymiad i wella cefnogaeth i ofalwyr di-dâl a gofalwyr di-dâl ifanc.

Mae Cyngor Caerdydd eisoes wedi ymrwymo i wella'r gefnogaeth i ofalwyr di-dâl fel y nodir yn Strategaeth Heneiddio'n Dda a Chynllun Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Plant. Nod y Cyngor yw ymgorffori ei holl gynlluniau ar gyfer gofalwyr mewn un Cynllun Gweithredu sy'n nodi'r camau sydd eu hangen i fwrw ymlaen â'r gwaith.

Mae mwy nag un rhan o bump o ofalwyr yn darparu mwy na 50 awr yr wythnos o ofal di-dâl, gan roi cyfraniad sylweddol iawn i Wasanaethau Oedolion. Nod y Siarter yw codi proffil ac ymwybyddiaeth gofalwyr a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael. Y cam nesaf yw lansio'r Siarter gan ddefnyddio dulliau lluosog yn seiliedig ar ymgysylltu â gofalwyr ac adborth gan ofalwyr.

Gwahoddwyd yr aelodau i wneud sylwadau/arsylwadau a gofyn cwestiynau, sy'n cael eu crynhoi fel a ganlyn:

Gofynnodd aelodau am fwy o fanylion ar sut roedd y Siarter wedi'i chydgynhyrchu gyda gofalwyr di-dâl ac ar drefniadau dilynol i sicrhau ei bod yn parhau i ddiwallu eu hanghenion. Dywedodd swyddogion fod ymgysylltu yn ystod mis Awst 2019 wedi dechrau gydag oedolion a gofalwyr ifanc yn ogystal â phobl o bob rhan o'r gweithlu ar y cyd i ddatblygu'r weledigaeth a'r blaenoriaethau a rennir. Cynhaliwyd ymgysylltu pellach eleni. Bydd y Bwrdd Gofalwyr Di-dâl yn goruchwylio'r gwaith o gyflwyno'r Siarter a bydd yn parhau i dderbyn cyngor gan ofalwyr.

Bu'r aelodau yn trafod datblygu sgiliau'r gweithlu. Dywedodd swyddogion bod gweithwyr yn dod i gysylltiad â gofalwyr yn rheolaidd ac roedd hi'n bwysig meithrin eu sgiliau er mwyn deall anghenion gofalwyr. Mae angen lefelau o hyfforddiant gwahanol i wahanol aelodau o staff wrth i ofalwyr ymgysylltu â gwahanol wasanaethau'r Cyngor mewn amrywiol ffyrdd.

Gofynnodd aelodau am wybodaeth ychwanegol am gynlluniau ar gyfer gweithredu'r Siarter, yr heriau a ragwelwyd wrth droi cynlluniau'n gamau penodol a'r dulliau ar gyfer monitro a mesur llwyddiant y gweithredu. Dywedodd swyddogion y bydd y Cyngor yn cydweithio gyda'r Bartneriaeth i ddatblygu ffordd ymlaen a sicrhau bod cynlluniau pendant ar waith. Bydd un Cynllun Gweithredu cyffredinol ar gyfer cyflawni'r amcanion a fydd yn cael eu gweithredu drwy'r cyfarwyddiaethau. Yr her anoddaf a geir hyd yma yw cyrraedd a nodi gofalwyr. Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda'r Carers Collective ar grantiau seibiant ond mae hi wedi bod yn anodd cyrraedd y bobl iawn. Bydd ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd effeithiol yn hollbwysig. Dywedodd swyddogion mai rôl y BPRh yw ymhelaethu ar waith y sefydliadau statudol a sicrhau bod y neges yn cyrraedd cymaint o ofalwyr â phosibl.

Holodd yr aelodau am yr amserlen i'w chyflwyno. Dywedodd swyddogion fod y Siarter i fod i gael ei lansio ym mis Tachwedd, ac yn dilyn hynny bydd y Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr yn ymgymryd â'r Cynllun Cyflawni Camau manwl, a fydd yn cydlynu'r gweithgareddau mewn gwahanol sefydliadau. Y cam cyntaf o fewn Caerdydd fydd yr Arolwg Seibiant. Mae'r Cyngor yn recriwtio ar gyfer Rheolwr Gwasanaeth ac yn ddiweddar mae wedi recriwtio Hyrwyddwr Gofalwyr i weithio yn y gymuned. Bydd cynllun cynhwysfawr yn ei le erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ac yn cael ei gyflwyno yn unol â'r blaenoriaethau.

Gofynnodd aelodau am ddadansoddiad o'r prif feysydd gofal a ddarparwyd. Dywedodd swyddogion y gallai'r wybodaeth gael ei rhoi i'r Pwyllgor.

Nododd yr aelodau'r nifer isel a oedd yn cael Asesiad Gofalwyr a gofynnwyd am esboniad o'r rhesymau am hyn a sut y gellid mynd i'r afael ag ef. Dywedodd swyddogion bod llawer o ofalwyr yn cael cynnig Asesiad Gofalwyr ond maen nhw'n dewis peidio â'i dderbyn gan nad ydyn nhw'n ystyried eu hunain fel rhai sydd ag anghenion. Gallai cyfathrebu gwell godi ymwybyddiaeth o'r cymorth gwahanol sydd

ar gael i ofalwyr sydd â lefelau gwahanol o angen. Mae adolygiad yn cael ei gynnal i weld a ddylai asesiadau gofalwyr gael eu bwndelu ag asesiadau defnyddwyr gwasanaeth.

Gofynnodd yr aelodau am wybodaeth bellach am y mecanweithiau ar gyfer casglu barn gofalwyr ac wedyn newid gweithdrefnau a chyflawni. Dywedodd swyddogion fod Rheolwr Gwella Gwasanaethau yn cael ei recriwtio i adolygu'r ddarpariaeth a chasglu adborth gan ofalwyr, yn ogystal â gweithredu gwelliant dilynol i'r ddarpariaeth. Rhagwelir gweithdrefnau a hyfforddiant newydd. Gallai hyn gynnwys hyfforddiant i weithwyr cymdeithasol, staff yr Hwb a Phwynt Cyswllt Cyntaf y staff. Bydd y Cynllun Gweithredu yn manylu ar flaenoriaethau gweithredu. Bydd gofalwyr yn rhan o'r gwerthusiad.

Nododd yr aelodau bod yr adroddiad yn dweud na fyddai unrhyw oblygiadau ariannol i'r Cyngor ac yn trafod a fyddai unrhyw ymrwymiad i newid y gwasanaeth yn cael ei ystyried yn y gyllideb nesaf. Cafodd yr aelodau wybod y byddai pob peth yn cael ei ystyried ac nad oedd cyllidebau wedi cael eu gosod.

Gofynnodd aelodau am ddiweddariad ar unrhyw ymyriadau a roddwyd ar waith i wella'r sefyllfa o ran seibiant. Dywedodd swyddogion bod arolwg wedi'i gynnig i ddechrau i ddarganfod pa atebion oedd wedi gweithio'n dda a pha gyfleoedd oedd ar gael ar hyn o bryd. Mae diffyg cynllunio digonol wedi ei nodi yn y gorffennol a'r gred yw y gallai cynllunio gwell leihau costau. Bydd y Cyngor yn aros am ganlyniadau'r arolwg cyn penderfynu ar gamau pellach.

Nododd aelodau fod 50% o ofalwyr yn 50 oed ac uwch, a gofynnwyd pa gamau oedd yn cael eu cymryd i ymgysylltu â nhw. Dywedodd swyddogion y byddai cyhoeddusrwydd yn cael ei roi i annog gofalwyr i ddod ymlaen. Byddai hyn yn cynnwys mathau mwy traddodiadol o gyhoeddusrwydd yn ogystal â defnydd o gyfryngau cymdeithasol. Nid oes cynlluniau penodol ar gyfer ymgysylltu â'r rhai dros 50 oed; fodd bynnag, mae swyddogion yn fodlon derbyn unrhyw awgrymiadau.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a’u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y ffordd ymlaen.

14 : ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AWDURDOD LLEOL 2021/22

Cynghorwyd y Pwyllgor fod yr eitem hon yn galluogi Aelodau i ystyried Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol 2021/22 yr Awdurdod, cyn i'r Cabinet a'r Cyngor ei ystyried.

I gynorthwyo'r ystyriaeth, croesawodd y Cadeirydd:

- y Cynghorydd Norma Mackie, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion
- Jane Thomas, Cyfarwyddwr Oedolion, Tai a Chymunedau a
- Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gofal Cymdeithasol.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol, lle amlinellodd gyflawniadau Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn 2021/22, gan gynnwys datblygu ymarfer sy'n seiliedig ar gryfder; cymeradwyo'r Strategaeth Heneiddio'n Dda; datblygu Academi Caerdydd yn Gofalu; ailagor a chryfhau Canolfannau Gofal Dydd Pobl Hŷn; a mwy o ymuno â gwasanaethau i'r rhai sydd ag anghenion cymhleth. Ymhlith yr heriau sy'n parhau mae'r cynnydd mewn cyfaint a chymhlethdod gwaith achos; recriwtio a chadw gweithwyr gofal a gweithwyr cymdeithasol cymwys; a thrafferthion wrth sicrhau lleoliadau i ddefnyddwyr gwasanaethau gydag anawsterau dysgu.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi blaenoriaethau gan gynnwys ymrwymiadau i weithredu'r Strategaeth Heneiddio'n Dda; partneriaeth â darparwyr gofal i ddarparu gofal o ansawdd cynaliadwy; a chynyddu’r opsiynau gofal sydd ar gael.

Gwahoddwyd yr aelodau i wneud sylwadau/arsylwadau a gofyn cwestiynau, sy'n cael eu crynhoi fel a ganlyn:

Trafododd aelodau’r gostyngiad yn yr adolygiad o gynlluniau gofal. Dywedodd swyddogion ei bod hi wedi bod yn flwyddyn heriol i ofal cymdeithasol oedolion. Cafodd adolygiadau eu cynnal pan fo angen yn hytrach nag yn ôl yr arfer, yn unol â rheoliadau Covid.

Roedd gan yr aelodau ddiddordeb i wybod mwy am sut roedd gweledigaeth yr Aelod Cabinet ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei weithredu. Cynghorwyd yr aelodau fod mesurau ataliol ychwanegol yn ddymunol, ond roedd yn anodd eu datblygu oherwydd cyfyngiadau cyllidebol. Serch hynny roedd y sylfeini ar gyfer gwasanaeth ataliol da yn cael eu hadeiladu, ac roedd pobl yn cael cymorth i barhau i fyw eu bywydau fel y mynnant am gyfnod hirach.

Gofynnodd aelodau am wybodaeth am asesu a rhyddhau cleifion o'r Ysbyty Athrofaol gyda chefnogaeth y tîm Gwasanaethau Cymdeithasol. Cafodd yr aelodau wybod bod Gofal Cymdeithasol wedi bod yn gweithio gyda'r ysbyty i gynyddu'r cleifion sy'n cael eu rhyddhau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i hwyluso trosglwyddo pobl o'r ysbyty i'w cartrefi eu hunain yn hytrach nag i gartrefi gofal. Gall pobl sy'n cael eu datgan yn feddygol ffit fod yn fregus o hyd ac mae angen cefnogaeth barhaus arnynt. Sefydlwyd canolfan rhyddhau integredig yn Ysbyty Athrofaol Cymru i hwyluso rhyddhau cleifion i amgylcheddau gofal addas gyda chefnogaeth briodol.

Bu'r aelodau'n trafod cynnydd ar ofal integredig. Dywedodd swyddogion bod partneriaethau integredig da gyda chydweithwyr Iechyd ar bob lefel. Mae'r rhan fwyaf o bobl mewn ysbyty eisiau dychwelyd i'w cartrefi eu hunain a nod y Cyngor yw sicrhau bod gwasanaethau yn eu lle er mwyn galluogi i hynny ddigwydd cyn gynted â phosib. Mae gwaith da wedi'i wneud ar gynyddu faint o ofal cartref sydd ar gael.

Gofynnodd aelodau am wybodaeth bellach am lefel yr absenoldeb salwch, pam na wnaeth rhai staff asesiadau dychwelyd i’r gwaith, ac a oedd unrhyw opsiynau i gefnogi pobl i ddychwelyd i'r gwaith. Dywedodd swyddogion bod y Cyngor yn monitro a oedd absenoldeb salwch yn hir neu'n dymor byr a bod polisi cynhwysfawr ar gyfer rheoli absenoldeb salwch. Mae mesurau i gefnogi pobl, gan gynnwys y gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol. Mae'r gweithlu'n heneiddio ac mae'r gwaith yn straen, ac mae problemau gyda recriwtio. Mae cynllun gweithlu yn cael ei ddatblygu er mwyn denu pobl newydd i'r gwasanaeth a mynd i'r afael â’r pwysau sydd ar y staff

presennol.  Cafodd yr aelodau wybod bod canran fechan o'r staff wedi methu â gwneud asesiadau dychwelyd i’r gwaith am amryw o resymau.

Holodd yr aelodau a fyddai targedau ar gyfer trosglwyddo gofal yn cael eu hailgyflwyno.  Dywedodd swyddogion bod adolygiad o ffigyrau'n cael ei gynnal.

Gofynnodd aelodau am y wybodaeth ddiweddaraf am recriwtio gweithwyr cymdeithasol a chanran y gweithwyr cymdeithasol asiantaeth sy'n cael eu cyflogi.  Dywedodd swyddogion bod tua 12% o swyddi heb eu llenwi gyda lefel arbennig o uchel yng Ngwasanaethau Pobl Hŷn.  Mae'r Cyngor yn adolygu'r strwythurau mewn Gwasanaethau Oedolion i fynd i'r afael â'r materion sylfaenol.

Cafodd yr aelodau wybod bod swydd y Rheolwr Sicrhau Ansawdd wedi'i llenwi.

Nododd yr aelodau’r cynnydd mewn cwynion a gofynnwyd am wybodaeth am yr ymyriadau sy'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â phryderon. Dywedodd swyddogion y bu methiant yn y cyfathrebu â rhai defnyddwyr gwasanaeth, a nod y Cyngor oedd symud yn gyflymach wrth gynnal asesiadau. Mae'r polisi cwynion wedi cael ei adolygu er mwyn sicrhau bod cwynion yn cael eu trin yn brydlon ac adborth yn cael eu cyhoeddi.  Cododd materion cyfathrebu o ganlyniad i drosglwyddo defnyddwyr gwasanaeth allan o'r ysbyty yn gyflym y gaeaf diwethaf.  Roedd staff yn cael eu hyfforddi i sicrhau cyfathrebu prydlon.

Gofynnodd yr aelodau am wybodaeth bellach am achosion pwysau recriwtio a chadw staff yn y farchnad gofal, a'r camau yr oedd y Cyngor yn eu cyflawni i fynd i'r afael â nhw.  Dywedodd swyddogion bod amryw o resymau dros y diffyg recriwtio.  Cafwyd llwyddiannau gydag Academi Gofalwyr Caerdydd; fodd bynnag, mae diffyg hyblygrwydd ymhlith recriwtiaid posib, ac mae anawsterau trafnidiaeth hefyd yn rhwystr, yn ogystal â gwobrau ariannol isel. Mae llai o anhawster darparu gofal cartref er bod darparwyr gofal yn poeni am gostau cynyddol.  Mae'r Cyngor yn ystyried cefnogaeth i ofalwyr hunangyflogedig allai weithio'n dda gyda datblygu dull bro a chyfleusterau byw'n annibynnol.

Bu'r aelodau'n trafod cydweithio gyda gwasanaethau eraill y Cyngor fel Tai, Addysg a Thrafnidiaeth er mwyn helpu i fynd i'r afael â materion recriwtio a chadw staff ym maes Gofal Cymdeithasol.  Cynghorodd swyddogion bod cynllun i ariannu cangen beiciau trydan ar gyfer gweithwyr gofal, sydd wedi cael ei groesawu’n fawr. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda Thai i gynyddu'r ddarpariaeth i bobl hŷn.  Mae cynlluniau hefyd i helpu pobl sydd ag anawsterau dysgu a phroblemau iechyd meddwl i symud ymlaen o ofal preswyl. Does dim cynlluniau i ddarparu tai i ofalwyr.

Ceisiodd aelodau wybodaeth am y cynnydd mewn achosion diogelu.  Dywedodd swyddogion fod y tîm Diogelu Oedolion yn delio â phryderon a godwyd ynghylch unrhyw weithiwr proffesiynol.  Codir cyfran helaeth am gartrefi gofal neu ddarparwyr gofal.  Fel arfer, y pryderon a godir ynghylch talu'n uniongyrchol yw lle mae'r teulu'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol a darpariaeth gofal.  Gellid rhoi dadansoddiad i'r aelodau o'r achosion pe bai angen.  Dywedodd swyddogion fod dull corfforaethol â mwy o ffocws ar gyfer monitro atgyfeiriadau wedi'i roi ar waith, er mwyn nodi unrhyw angen am hyfforddiant ychwanegol. Nid oedd cynnydd mewn achosion a adroddwyd o reidrwydd yn dangos cynnydd mewn digwyddiadau.  Trafodwyd yr angen am nodi tueddiadau o ran diogelu achosion.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y ffordd ymlaen.

15 : GWEITHREDU DEDDF RHENTU CARTREFI (CYMRU) 2016

Mae'r Cynghorydd Molik wedi datgan diddordeb rhagfarnol yn yr eitem hon, tynnodd yn ôl fel Cadeirydd a chafodd ei disodli gan y Cynghorydd McGarry.

Cynghorwyd y Pwyllgor bod yr eitem hon yn rhoi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor gael eu briffio ar y ddeddfwriaeth hon, ac ymateb y Cyngor.

I gynorthwyo'r ystyriaeth, croesawodd y Cadeirydd:

- y Cynghorydd Lynda Thorne, yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau;
- Jane Thomas, Cyfarwyddwr Oedolion, Tai a Chymunedau a
- Helen Evans, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Tai a Chymunedau

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol, lle amlinellodd rai pryderon am oblygiadau'r ddeddfwriaeth ar y farchnad rhentu preifat.

Rhoddodd Jane Thomas, Cyfarwyddwr Oedolion, Tai a Chymunedau gyflwyniad lle'r oedd hi'n amlinellu rhai o effeithiau'r ddeddfwriaeth. Mae Contractau Galwedigaeth Newydd wedi'u drafftio ar gyfer tenantiaid y Cyngor, sydd â thelerau ychwanegol eisoes wedi'u cynnwys mewn cytundebau tenantiaeth. Mae newidiadau i amodau contract ar y cyd a hawliau olyniaeth gwell, a gellir adfeddiannu eiddo sydd wedi'u gadael heb orchymyn llys. Mae'r cyfnod rhybudd ar gyfer cynnydd mewn rhent yn codi o 1 mis i 2. Mae safon atgyweirio newydd wedi'i chyflwyno, a bydd gan ddeiliaid contract yr hawl i atal rhent os nad yw eiddo'n addas i bobl fyw ynddo. Bydd contractau meddiannaeth safonol yn rhoi mwy o ddiogelwch i ddeiliaid contract gyda chefnogaeth a llety dros dro. Mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch rhai o'r trafferthion all gael eu hachosi gan y ddeddfwriaeth.

Bydd yr hysbysiad cyfnod y mae'n ofynnol i landlordiaid preifat ei roi yn cynyddu o 2 fis i 6. Mae pryder y gall landlordiaid ddewis gadael y farchnad rhentu. Mae'r Cyngor yn cynnig cefnogi landlordiaid drwy brydlesu eu tai.

Mae tenantiaid yn cael eu cefnogi er mwyn deall y newidiadau. Mae'r Cyngor yn derbyn cyngor cyfreithiol ar y contractau meddiannaeth newydd i denantiaid y cyngor, ac argymhellir bod cwblhau'r rhain yn cael ei ddirprwyo i Swyddogion mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet.

Gwahoddwyd yr aelodau i wneud sylwadau/arsylwadau a gofyn cwestiynau, sy'n cael eu crynhoi fel a ganlyn:

Trafododd yr Aelodau broblem lleithder parhaus yn rhai o eiddo'r Cyngor mewn perthynas â'r safon atgyweirio newydd a hawl tenantiaid i atal rhent. Cynghorwyd yr aelodau fod lleithder parhaus yn aml yn cael ei achosi gan gyddwysiad wedi'i waethygu gan ffordd o fyw ac amharodrwydd i awyru'n iawn. Mae swyddogion yn ymchwilio i system insiwleiddio waliau mewnol o'r enw "Matilda's Blanket" a allai

ddarparu ateb mewn rhai achosion. Bydd fideo sy'n amlinellu camau y gall pobl eu cymryd i leihau cyddwysiad yn cael ei gyflwyno ar YouTube, ynghyd â dalen ffeithiau mewn sawl iaith. Mae swyddogion wedi adolygu'r Uned Cynnal a Chadw Ymatebol a darparu adnoddau ychwanegol.

Holodd yr aelodau a fu unrhyw fodelu ar oblygiadau'r ddeddfwriaeth i Gaerdydd a pha liniaru y gallai fod. Dywedodd swyddogion bod data ar nifer y landlordiaid preifat sy'n gadael y farchnad wedi ei gasglu. Yn ôl yr aelodau, lleiafrif o landlordiaid sy'n rheoli mwyafrif yr eiddo. Y rhai sy'n berchen ar 1-2 eiddo rhent yw'r rhai sy'n fwy tebygol o adael y farchnad. Mae llinell gymorth i gynghori landlordiaid mewn trafferthion yn cael ei hystyried.

Holodd yr aelodau am y cynllun prydlesu a gofynnwyd am eglurhad a fyddai'n ofynnol i landlordiaid newid eu darpariaethau morgais i fynd i'r cynllun. Cafodd aelodau wybod bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r broblem ac yn adolygu'r sefyllfa.

Roedd yr aelodau yn gofyn am eglurhad am yr ieithoedd eraill oedd yn cael eu defnyddio ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg. Cadarnhaodd swyddogion y byddai'r dogfennau yn cael eu cyfieithu i ieithoedd eraill ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg.

Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth ynghylch a oedd unrhyw eiddo wedi'u gadael yn stoc tai'r Cyngor; ac a oedd unrhyw eiddo a fyddai'n cael eu dosbarthu fel rhai sy'n amhreswyliadwy ac a fyddent yn cael eu hunioni cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym. Fe gadarnhaodd swyddogion bod eiddo wedi ei adael ac y byddai'r ddeddfwriaeth yn gwneud y broses o adfeddiannu'n haws. Nid oes gan y Cyngor unrhyw dai sy'n anaddas i bobl fyw ynddo oni bai eu bod yn cael gwaith atgyweirio. Mae gwaith ar y gweill i sicrhau bod dogfennaeth yn gyfredol ynghylch larymau mwg ac ati.

Holodd yr aelodau a fyddai tenantiaid yn cael eu hystyried mewn ôl-ddyled pe baen nhw'n penderfynu atal rhent ar y sail eu bod yn ystyried yr eiddo'n amhreswyliadwy. Dywedodd swyddogion fod prosesau ar waith i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd cyn gynted ag y mae tenantiaid yn mynd i ôl-ddyled, a bod unrhyw faterion yn cael eu hadrodd yn brydlon i'r gwasanaeth atgyweirio. Cafodd aelodau wybod bod y materion yn debygol o fod yn fwy yn y sector rhent preifat.

Gofynnodd yr aelodau am wybodaeth am y goblygiadau ar gyfer dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Cafodd swyddogion wybod bod y broses yn debygol o gymryd mwy o amser ac yn golygu y byddai eiddo'n aros yn wag am gyfnodau hirach. Y gobaith yw na fyddai cyfraddau gwag yn gyffredinol yn cael eu heffeithio.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y ffordd ymlaen.

16 : RHAGLEN WAITH PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL AC OEDOLION 2022/23

Daeth yr eitem flaenorol i ben, dychwelodd y Cynghorydd Molik i'r Gadair a gwahoddodd Erica Painter i roi diweddariad ar Raglen Waith y Pwyllgor 2021-22.

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at yr eitemau craffu cyn penderfynu, i'w hystyried gan Aelodau yn ystod 2022/23; a'r ddau ymchwiliad Tasg a Gorffen ynghylch yr argyfwng costau byw, a mynediad at Wasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion ar gyfer lleiafrifoedd ethnig.

PENDERFYNWYD: I dderbyn y Rhaglen Waith a meysydd allweddol.

17 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chafwyd unrhyw rai.

18 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Llun 14 Tachwedd 2022 am 2.30pm.

19 : GOHEBIAETH YN DILYN CYFARFOD Y PWYLLGOR

Trafododd aelodau'r wybodaeth a dderbyniwyd a nodi nifer o broblemau y cytunai'r Cadeirydd fyddai'n cael eu cynnwys yn y llythyrau fyddai'n cael eu gyrru, ar ran y Pwyllgor, i'r Aelodau a'r Swyddogion perthnasol.

Gadawodd y Cynghorydd Molik y Gadair o blaid y Cynghorydd McGarry yn ystod y drafodaeth ar faterion yn codi o Eitem 6.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.30 pm